



Arweinwyr Ifanc DofE Cymru Gwybodaeth i

Yn gyntaf, diolch i chi am gytuno i gefnogi arweinydd ifanc newydd trwy ei raglen. Bydd eich arbenigedd a'ch profiad yn hanfodol i ddarparu'r annogaeth a'r arweiniad parhaus a fydd ei angen ar yr unigolyn, ac yn gyfnewid dylech gael unigolyn ifanc brwdfrydig a galluog sy'n barod i gymryd rhan i helpu pobl ifanc eraill ennill eu dyfarniadau.

Beth yn gyntaf?

Y cam cyntaf i'ch unigolyn ifanc fydd mynychu Cwrs Arweinwyr Ifanc - bydd hwn yn gwrws preswyl dwy noson gyda hyd at 30 o arweinwyr ifanc yn cymryd rhan.

Bydd angen i chi sgwrsio â'ch arweinydd ifanc cyn iddo fynychu - nid hwyl a sbri mo'r cwbl - mae peth dysgu yn y dosbarth ac rydym yn disgwyl lefel uchel o gyfranogiad yn yr holl weithgareddau.

Nid cwrs gweithgaredd awyr agored mohono - cymerwch olwg ar y deilliannau dysgu gyda'ch gilydd i'w helpu ei baratoi.

Cyn iddo fynd ar y cwrs preswyl, rhaid iddo gwblhau ychydig o ddysg cyn y cwrs. I weld y cwrs, ewch i www.DofEtraining.org yna pwyswch ar Raglen Arweinyddiaeth DofE. e-cynefino.



Beth nesaf?

Cyfarfyddwch â'ch arweinydd ifanc ar ôl y cwrs preswyl i roi cyfle iddo drafod y profiad a'r hyn mae wedi'i ddysgu. Trafodwch ei nodau a'i ddyheadau, beth yr hoffai ei gyflawni?

Treuliwch amser i gytuno ar gynllun ar gyfer y dyfodol, sy'n cynnwys:

- Protocolau gwirfoddoli gyda'ch grŵp, siaradwch am eich polisïau a'ch gweithdrefnau.
- Unrhyw hyfforddiant ychwanegol sydd ei angen ar eich canolfan neu y gallwch ei gynnig.
- Dyddiadau gwirfoddoli a'ch disgwyliadau ynglŷn ag ymroddiad.
- Sut fyddwch chi'n aros mewn cysylltiad.

Cymorth parhaus:

Darparu adborth - byddwch yn barod i gynnig adborth adeiladol i'r cyfranogwr o ran ei weithgareddau. Gallai hyn fod yn ei waith cynllunio, ei gyflwyniad neu'r ffordd y bu iddo ymdrin â sefyllfa benodol. Cofiwch ganiatáu iddo ddysgu o'i gamgymeriadau a hybu ei hyder.

Ymddwyn fel bwrdd seinio - mae gwranddo yn sgil allweddol i fentoriaid. Byddwch yn barod i wrando a chael trafodaeth gyda'ch cyfranogwr. Helpwch i ddod o hyd i ddatrysiadau i unrhyw faterion sydd ganddo, a pharchwch ei safbwyntiau hyd yn oed os nad ydych yn cytuno.

Hyfforddwr - rhannwch eich profiadau eich hun a chynigiwch gyngor. Adnabyddwch adnoddau a fydd yn cefnogi ei ddysg a gweithgareddau. Bydd angen i chi ei helpu i gyflawni ei amcanion dysgu a chyflwyno portffolio o dystiolaeth briodol i fodloni'r meini prawf asesu.

Portffolio Gwirfoddoli

Mae gofyn i gyfranogwyr ymgymryd â 14 awr o wirfoddoli ymarferol dros nifer o wythnosau i gwblhau eu hardystiad a rhaid iddynt gyflwyno portffolio o dystiolaeth i arddangos sut maent wedi rhoi eu dysg ar waith mewn amryw o sefyllfaoedd.

- Ni ddylai'r portffolio fod yn gasgliad o ddeunydd cysylltiedig ond dylai ddangos tystiolaeth o ddealltwriaeth a'r Deilliannau Dysgu.
- Rydym wedi cynnwys templed o 'Portffolio Gwirfoddoli' yn y pecynnau cynrychiolwyr i helpu cynrychiolwyr i strwythuro eu cyflawniadau a dangos deilliannau dysgu.
- Ni ddylai'r portffolio fod wedi'i gyfyngu i ateb y cwestiynau, a dylai gynnwys tystiolaeth ychwanegol.

Engbreiffiau o Dystiolaeth

- ✓ Adroddiad gan y dysgwr
- ✓ Darn fideo/ clywedol
- ✓ Engbreiffiau ar-lein o flogiau, podlediadau ac eDofE (fel sy'n briodol)
- ✓ Taflen asesu cyfoedion gyda thiworiaid

cadarnhad

- ✓ Taflen adborth wedi'i llofnodi a'i dyddio gan y tiwtor

Gallwch ddod o hyd i Engbreiffiau a Deilliannau Dysgu yn <https://www.dofe.org/notice-boards/wales/young-leaders-programme/>



Name	_____
Volunteering with	_____ (Name of DofE Group)
Mentor's Name	_____ Email _____

FOR OFFICE USE ONLY	Checked by _____	Date _____
	Verified by _____	Date _____
Practical Leadership Certificate <input type="checkbox"/>	Millennium Volunteers (50) <input type="checkbox"/>	Millennium Volunteers (100) <input type="checkbox"/>
		Millennium Volunteers (200) <input type="checkbox"/>

www.DofE.org August 2016

Rhestr Wirio Achredu

- ✓ A yw'r dystiolaeth yn glir, yn dangos beth mae'r cyfranogwr wedi'i ddysgu?
- ✓ A yw'r dystiolaeth yn berthnasol i'r Deilliannau Dysgu?
- ✓ A yw'r dystiolaeth yn amlwg yn waith y cyfranogwr?
- ✓ A yw'n adlewyrchu cyflawniad y cyfranogwr?
- ✓ A yw'r dystiolaeth yn wir? Allai'r unigolyn ddangos ei fod yn wir?
- ✓ A yw'r portffolio wedi'i gyflwyno'n glir ac yn rhwydd i'w ddilyn?

Gall DofE Cymru ddarparu'r cwrs hwn am ddim i gyfranogwyr.